UKRI Innovate UK

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Prifysgol Abertawe
Swansea University



# CYLLID AR GAEL I GEFNOGI GWAITH MEITHRIN PARTNERIAETHAU A GWEITHGAREDDAU YMCHWIL, DATBLYGU AC ARLOESI YN EICH SEFYDLIAD

**MAE BUSNESAU BACH A CHANOLIG YN CYFRANNU 25% YN UNIG AT GOSTAU RHAGLENNI TROSGLWYDDO GWYBODAETH TAN FIS CHWEFROR 2022**





## BETH YW PARTNERIAETH SMART A PHARTNERIAETH TROSGLWYDDO GWYBODAETH?

Mae Partneriaethau SMART a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth yn rhaglenni a ariennir yn rhannol gan y llywodraeth. Eu nod yw hybu perfformiad a chynhyrchiant sefydliadau drwy gydweithrediadau â phrifysgolion yn y DU. Maent yn bartneriaethau 3 ffordd rhwng busnes neu elusen, cynorthwy-ydd cyswllt(unigolyn sydd wedi graddio/ôl-raddedig) a phrifysgol i weithio ar brosiect penodol yn y sefydliad.

Mae Partneriaethau Smart a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth yn rhoi mynediad i chi at arbenigedd a gwybodaeth academaidd i helpu i drawsnewid eich sefydliad, datrys problemau, gwella gallu i gystadlu, cynhyrchiant a pherfformiad a thrawsnewid eich sefydliad yn y pen draw.

### SUT GALL CYDWEITHIO DRWY BARTNERIAETH HELPU GYDA DATBLYGIAD?

Darllenwch am fanylion pob rhaglen a'r manteision cyffredinol i bob partner:

Tudalen 3 - Partneriaethau SMART

Tudalen 4 - Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth

Tudalen 5 - Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth Reoli

Tudalen 6 - Cysylltu â Ni

## PARTNERIAETHAU SMART

### SUT MAE PARTNERIAETHAU SMART YN GWEITHIO?

- Maent yn bartneriaethau rhwng tri aelod, sef sefydliad ymchwil yng Nghymru, busnes yng Nghymru a Chynorthwy-ydd Cyswllt.
- Mae'r Cynorthwy-ydd Cyswllt yn gweithio yn y busnes er mwyn datblygu'r prosiect a'i roi ar waith Bydd prosiectau'n para rhwng 6 a 12 mis
- Dyfernir y cyllid i'r sefydliad ymchwil
- Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 50% at y costau
- Bydd busnesau'n cyfrannu'r 50% sy'n weddill naill ai ar ffurf arian NEU ar ffurf cyfraniadau nwyddau h.y. amser staff neu ddeunyddiau'r cwmni
- Mae angen cymwysterau/profiad ar y Cynorthwy-ydd Cyswllt i gyd-fynd â'r gofynion o ran cyflawni'r prosiect, ac o leiaf BTEC neu Ddiploma ar Lefel 3
- Asesir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol: Effaith, Arloesi, Her, Cydlynoldeb

### Y BROSES CYFLWYNO CAIS

- Gallwch gyflwyno cais UNRHYW bryd.
- Dylai'r busnes a'r Brifysgol gyflwyno'r cais ar y cyd. Mae angen achos busnes amlwg ar gyfer y prosiect; nid mentrau ymchwil yw Partneriaethau Smart

### PA BROSIECTAU SY'N CAEL EU HARIANNU GAN BARTNERIAETHAU SMART?

- Prosiectau cydweithredol a fydd yn gwella gallu busnesau Cymru i ddatblygu gweithgareddau Ymchwil a Datblygu wrth hwyluso ymlediad sgiliau technegol a busnes
- Prosiectau a fydd yn datblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd sy'n cyd-fynd ag Arbenigo Clyfar - mae angen i fusnesau ddangos eu bod yn gallu manteisio ar ganlyniadau'r prosiect
- Prosiectau sy'n hwyluso gwaith trosglwyddo gwybodaeth o ymchwilwyr i fusnesau i feithrin arloesedd - yn enwedig ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg.
- Prosiect sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)



## PARTNERIAETHAU TROSGLWYDDO GWYBODAETH

### BETH YW PARTNERIAETH TROSGLWYDDO GWYBODAETH?

- Partneriaeth rhwng tri pharti, sef sefydliad ymchwil, busnes a Cynorthwy-ydd Cyswllt (unigolyn graddedig â chymwysterau priodol)
- Mae'r Cynorthwy-ydd Cyswllt yn gweithio yn y busnes am 12 i 36 mis er mwyn datblygu'r prosiect a'i roi ar waith
- Ariennir prosiectau'n rhannol gan Innovate UK a Llywodraeth Cymru
- Mae busnesau'n cyfrannu rhwng 33% (busnesau bach a chanolig) a 50% (busnesau mawr) AC mae'n rhaid profi fforddiadwyedd
- Mae angen i'r Cynorthwy-ydd Cyswllt fod yn unigolyn graddedig â chymwysterau priodol ynghyd â'r gallu i arwain prosiect busnes strategol
- Derbynnir ceisiadau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac fe'u hasesir ar sail: Effaith, Arloesi, Her, Cydlynoldeb

## PARTNERIAETHAU TROSGLWYDDO GWYBODAETH REOLI (MKTP)

### SUT MAE PARTNERIAETHAU TROSGLWYDDO GWYBODAETH REOLI YN GWEITHIO?

- Maent yn bartneriaethau rhwng tri aelod, sef sefydliad ymchwil, busnes a Chynorthwy-ydd Cyswllt.
- Mae'r Cynorthwy-ydd Cyswllt yn gweithio yn y busnes er mwyn datblygu'r prosiect a'i roi ar waith
- Fel arfer, bydd prosiect yn para 24 mis.
- Dyfernir y cyllid i'r sefydliad ymchwil
- Ariennir prosiectau'n rhannol gan Innovate UK a Llywodraeth Cymru
- Mae busnesau'n cyfrannu'r swm sy'n weddill ar ffurf ARIAN.
- Mae angen i'r Cynorthwy-ydd Cyswllt fod yn unigolyn graddedig â chymwysterau priodol ynghyd â'r gallu i arwain prosiect busnes strategol
- Asesir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol: Effaith, Arloesi, Her, Cydlynoldeb
- Ceir ychydig o 'gystadlaethau' bob blwyddyn pan fydd modd cyflwyno ceisiadau am Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth i'w hystyried

### PWY DDYLAI GYFLWYNO CAIS AM MKTP?

- Busnesau bach a chanolig mewn unrhyw sector sydd am dyfu , sy'n awyddus i feithrin a gweithredu eu strategaeth rheoli uchelgeisiol drwy gyflwyno arferion rheoli gwell.
- Busnesau sy'n ceisio gwella cynhyrchiant yn sylweddol, gan gydnabod y gall rheolaeth ac arweinyddiaeth dda helpu i gyflawni hyn.
- Sefydliadau sydd am wella sgiliau eu pobl a gwneud gwelliannau o ran cynhyrchiant drwy roi arferion a phrosesau arloesi sy'n arwain y diwydiant ar waith.

### BETH MAE MKTP YN EI GWMPASU?

Mae MKTP yn cwmpasu'r holl swyddogaethau busnes o farchnata i TG, creadigrwydd i reoli strategol, AD i gysylltiadau cyflogaeth, a chyllid i logisteg.

Gall y meysydd ffocws allweddol gynnwys:

- Monitro a phennu targedau
- Cyfathrebu a chymhelliant
- Trefnu, cynllunio adnoddau a meddwl yn strategol
- Datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- Ymwybyddiaeth fasnachol a rheoli risg
- Hyfforddi a mentora
- Gwerthuso opsiynau, sganio'r gorwel a chraffter strategol

**MAE BUSNESAU BACH A CHANOLIG YN CYFRANNU 25% YN UNIG AT GOSTAU RHAGLENNI TROSGLWYDDO GWYBODAETH TAN FIS CHWEFROR 2022**

## MANTEISION CYNLLUN Y BARTNERIAETH TROSGLWYDDO GWYBODAETH

### AR GYFER Y BUSNES

- Mynediad at arbenigedd nad oes gennych yn fewnol
- Gwelliant mewn perfformiad a phrosesau busnes
- Cynnydd mewn refeniw drwy gael mynediad at farchnadoedd newydd a datblygu cynnyrch
- Risg ariannol lai o ganlyniad i gyfraniadau gan Innovate UK a Llywodraeth Cymru
- Mewnbwn strategol gan Ymgynghorydd Trosglwyddo Gwybodaeth profiadol a chymorth gan y Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth drwy gydol cylch bywyd y prosiect
- Mantais gystadleuol gryfach drwy arloesi
- Posibilrwydd o greu Eiddo Deallusol

### AR GYFER YR ACADEMYDD / Y BRIFYSGOL

- Incwm
- Papurau a gyhoeddwyd
- Deunyddiau addysgu, astudiaethau achos a phrosiectau
- Themâu ymchwil newydd - perthnasedd masnachol
- Datblygiad staff - ymwybyddiaeth fasnachol
- Cofrestriadau graddau uwch
- Cyfleoedd gyrfa i raddedigion
- Manteisio ar Eiddo Deallusol, a ddatblygwyd yn ystod prosiect

### AR GYFER YR UNIGOLYN GRADDEDIG SEF Y CYNORTHWY-YDD CYSWLLT

- Cyflog cystadleuol A chyllideb datblygiad personol gwerth £2,000 ar gyfer pob blwyddyn y bydd y prosiect ar waith
- Cyfle i fod yn rhan o un o gynlluniau recriwtio graddedigion mwyaf y wlad
- Cyflogaeth mewn disgyblaeth academaidd a ddewiswyd a pherchnogaeth prosiect
- Datblygiad gyrfaol ar lwybr cyflym
- Cyfle i gofrestru ar gyfer gradd uwch yn ystod prosiect
- Mae llawer o gwmnïau'n cynnig cyflogaeth amser llawn i'r Cynorthwy-ydd Cyswllt ar ôl i Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ddod i ben



## CYSYLLTU Â NI

### RYDYM NI YMA I CHI!

Mae ein tîm Trosglwyddo Gwybodaeth yn darparu cymorth, a gall helpu gydag ymholiadau ynghylch cyflwyno cais am bartneriaeth.

Am ragor o wybodaeth am Bartneriaethau SMART neu Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, e-bostiwch ein tîm Trosglwyddo Gwybodaeth yn knowledgetransfer@abertawe.ac.uk